

Digwyddiadau Asiantaethau Rhanbarthol y Bank of England

Hysbysiad Preifatrwydd Rheoli

Hydref 2022

Gwybodaeth a gasglwn

Drwy'r ffurflen hon, neu drwy gais gennych drwy e-bost, mae'r Bank of England yn casglu data personol amdanoch. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich manylion cyswllt proffesiynol ac unrhyw ofynion arbennig sy'n ymwneud â'ch cyfranogiad yn y digwyddiad hwn (fel y'u darperir).

Pam mae angen eich data personol arnom

Rydym yn casglu eich data personol i gynnal, rheoli a chydlynu presenoldeb yn y digwyddiad hwn, ac i roi mynediad i chi i safle'r digwyddiad yn unol â gofynion diogelwch perthnasol. Mae er ein budd cyfreithlon i brosesu eich data personol fel rhan o hyrwyddo dealltwriaeth o rôl unigryw'r Banc, meithrin gwell perthnasoedd gwaith a darparu deunyddiau addysgol i gwmnïau a'r cyhoedd. Os byddwch yn rhoi unrhyw wybodaeth i ni y gellid ei hystyried o gategori arbennig (er enghraifft, gwybodaeth i wneud trefniadau arbennig ar gyfer mynediad i adeilad), rydym yn prosesu'r data hwn gyda'ch caniatâd. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl unrhyw bryd drwy anfon e-bost at Agencies-Privacy@bankofengland.gsi.gov.uk.

Yr hyn a wnawn â'ch data personol

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i baratoi a chydlynu'r digwyddiad, gan gynnwys rheoli mynediad i'r safle. Efallai y byddwn ni hefyd yn cysylltu â chi ag unrhyw ymholiadau, neu ddiweddariadau ychwanegol am y digwyddiad. Mae'n bosibl y byddwn ni yn defnyddio'ch data i'ch gwahodd i ddigwyddiadau yn y dyfodol, ac i asesu a rheoli digwyddiadau yn y dyfodol yn well. Efallai y bydd eich enw a'ch sefydliad hefyd yn cael eu cynnwys ar restr mynychwyr y gellir eu dosbarthu i gyfranogwyr. Rhwng wybod i ni os oes gennych unrhyw bryderon am hyn. Pan fyddwn ni'n cynnal digwyddiadau ar y cyd â sefydliadau eraill, megis Siambr Fasnach, efallai y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth presenoldeb wedi'i chyfyngu i gydgyssylltu digwyddiadau yn unig. Os cynhelir y digwyddiad mewn lleoliad allanol, bydd eich enw llawn hefyd yn cael ei rannu gyda'r sefydliad hwnnw er mwyn hwyluso eich mynediad i'r adeilad. Ar gyfer rhai digwyddiadau, efallai y cynhelir gwiriadau diogelwch cefndirol hefyd i sicrhau diogelwch mynychwyr digwyddiadau.

Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti i gyflwyno ein ffurflenni arolwg, WorldAPP Inc i ddarparu'r offeryn ar-lein KeySurvey a Microsoft i ddarparu'r offeryn arolwg Forms. Mae'r trydydd parti hyn wedi'u lleoli yn yr Unol Daleithiau. Lle trosglwyddir data personol i'r Unol Daleithiau, defnyddir mecanwaith a gydnabyddir gan gyfraith diogelu data'r DU i sicrhau bod mesurau diogelu priodol yn eu lle (cymalau contractiol safonol neu gytundeb trosglwyddo data rhyngwladol). I gael rhagor o wybodaeth am arferion diogelwch a pholisi preifatrwydd WorldAPP Inc, ewch i [keysurvey.com/privacy-policy](https://www.keysurvey.com/privacy-policy). Mae rhagor o wybodaeth am bolisi preifatrwydd Microsoft ar gael yn: [Datganiad Preifatrwydd Microsoft](#).

Gellir tynnu lluniau yn y digwyddiad, a'u defnyddio wedyn fel rhan o'n gweithgareddau ymwybyddiaeth. Rhwng wybod i ni os byddai'n well gennych i ni beidio â thynnu llun ohonoch.

Byddwn ni'n cadw eich data cofrestru am 5 mlynedd o'ch rhyngweithiad diwethaf â ni. Byddwn yn cadw ffotograffau am gyhyd ag sydd angen i gefnogi ein gweithgareddau ymwybyddiaeth parhaus.

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau o dan gyfreithiau diogelu data. Er enghraifft, mae gennych hawl i ofyn i ni am gopi o'r data personol y mae'r Banc yn ei gadw amdanoch. Gelwir hyn yn 'Gais Gwrthrych am Wybodaeth'. Gallwch ofyn i ni newid sut rydym yn prosesu neu'n delio â'ch data personol, ac efallai y bydd gennych hefyd yr hawl mewn rhai amgylchiadau i gael eich data personol wedi'u diwygio neu wedi'u dileu. I gysylltu â ni am yr hawliau hynny, gan gynnwys gwneud cais am y data personol sydd gennym amdanoch neu i wneud cwyn, gweler ein gwefan yn <http://www.bankofengland.co.uk/privacy> neu gallwch ysgrifennu atom yn:

Y Tîm Preifatrwydd
Bank of England
Threadneedle Street
Llundain
EC2R 8AH

Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb neu'n credu ein bod yn prosesu eich data personol heb fod yn unol â'r gyfraith gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Eich hawliau

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data'r Bank drwy'r manylion uchod a gallwch hefyd ddysgu rhagor am sut mae'r Bank yn delio â'ch data personol trwy'r ddolen 'Preifatrwydd' ar waelod ein gwefan (www.bankofengland.co.uk).